Swyddog yr Iaith Gymraeg

Mae Swyddog yr Iaith Gymraeg yn cynrychioli myfyrwyr Cymraeg eu hiaith ar y campws, gan sicrhau bod yr iaith Gymraeg wrth galon yr Undeb. Gan weithio gyda swyddogion a mudiadau eraill, mae'n ymgyrchu ar faterion sy'n perthyn i'r diwylliant Cymraeg ac yn sicrhau bod barn myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn cael eu hystyried.

Bydd cyfrifoldebau Swyddog(ion) yr Iaith Gymraeg fel a ganlyn:

1. Cynrychioli myfyrwyr Cymraeg eu hiaith ar faterion sy'n berthnasol iddyn nhw.
2. Cydlynu ac arwain ymgyrchoedd ar faterion sy'n perthyn i anghenion myfyrwyr Cymraeg eu hiaith (lle bo hynny'n briodol).
3. Gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth a phwynt cyswllt i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith a'r rheiny sydd â diddordeb yn y Gymraeg.
4. Cynghori UMAber ar ffyrdd o wella ei waith yn unol ag anghenion myfyrwyr Cymraeg eu hiaith (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, adolygiad rheolaidd o Bolisi Dwyieithrwydd UMAber).
5. Gweithio gyda myfyrwyr, swyddogion llawn-amser a swyddogion eraill ar draws Cymru a'r DU i sicrhau bod anghenion myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn cael eu cynrychioli.

Cyfrifoldebau'r holl Swyddogion Gwirfoddol

1. Mynychu holl gyfarfodydd priodol Undeb Aber a'r Brifysgol gan gynnwys Cyfarfodydd y Senedd a Pharthau.
2. Ymddwyn mewn modd proffesiynol ac addas bob amser.
3. Sicrhau bod yr holl benderfyniadau a gweithredu'n cydymffurfio â chyfansoddiad UMAber a pholisïau cyfredol Undeb Aber.
4. Bod yn barod i adrodd ar gynnydd yr hyn sydd yn eu cylch gorchwyl.
5. Cyfarfod â chydlynu'n rheolaidd â Swyddogion Ymddiriedolwyr ac aelodau staff.

Ni fwriedir i Bortffolios y Swyddogion Gwirfoddol (y cyfeirir atynt hefyd fel Swyddogion “Rhanamser”) fod yn rhestrau holl-gynhwysfawr o'r gweithdrefnau a thasgau a ddaw i ran y swyddog(ion) hynny. Serch hynny, mae'n cynnwys prif ddisgwyliadau UMAber o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deilydd y swydd.

Am ragor o wybodaeth: Cyfansoddiad